

2006 Rhif 65

**GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

Cyfarwyddiadau i
Ymddiriedolaethau'r GIG a Bwrdd
Iechyd Lleol Powys 2006

Gwnaed 26 Medi 2006
Yn dod i rym 27 Medi 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth arfer y grymoedd a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(4), 17(1) a 126(4) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(a) yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

RHAN I

RHAGARWEINIOL

Cychwyn, gweithredu a dehongli

1. (1) Bydd y Cyfarwyddiadau hyn yn dod i rym ar 27th Medi 2006 ac maent yn berthnasol i bob Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru a Bwrdd Iechyd Lleol Powys.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn berthnasol o safbwynt Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn oni fydd yn ofynnol fel arall gan y cyd-destun—

(a) 1977 (c.49). Rhoddwyd adran 12(1) Deddf Iechyd 1999 (c.8) ("Deddf 1999") yn lle adran 17 ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 5, Rhan I, paragraff 5(1) a (3), i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (c.15). Ychwanegwyd adran 6 Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (c.17) at adran 16BB. Mae'r swyddogaethau o dan 17 a 126(4), hyd y byddan nhw'n arferadwy mewn perthynas â Chymru, yn cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad gan erthygl 2(a) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

ystyr “aelodau nad ydynt yn swyddogion” yw’r un a roddir gan reoliad 2 Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003**(b)**.

Ymddiriedolaethau’r GIG

2. Rhaid i bob Ymddiriedolaeth y GIG enwebu a chyhoeddi’r enwebiad ac enw un o’i chyfarwyddwyr anweithredol i gael ymgymryd â’r canlynol:

- (a) gweithredu fel ‘hyrwyddwr y cleifion’ ar faterion sy’n ymwneud â glanhau, hylendid a rheoli heintiau, ac yn fwy penodol:-
 - (i) cyfleu i bersonél priodol yr Ymddiriedolaeth y materion berthnasol, gan gynnwys y rheiny sy’n hyrwyddo gwelliant, sy’n gysylltiedig â glanhau, hylendid a rheoli heintiau hyd y bo’r rhain yn berthnasol o safbwynt darparu gwasanaethau gan neu ar ran yr Ymddiriedolaeth yn adeiladau’r Ymddiriedolaeth a gyflwynir iddo ef/hi gan aelodau o’r cyhoedd, cleifion yr Ymddiriedolaeth a Chynghorau Iechyd Cymuned; a
 - (ii) chynghori aelodau o’r cyhoedd, cleifion yr Ymddiriedolaeth a Chynghorau Iechyd Cymuned yn ôl y digwydd ynghylch ymateb yr Ymddiriedolaeth i un o’r materion hyn a godir o dan baragraff 2(a)(i) uchod; a
 - (iii) sicrhau y darperir y wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth sy’n hyrwyddo ymwybyddiaeth, parthed glanhau, hylendid a rheoli heintiau i gleifion yr Ymddiriedolaeth ac aelodau o’r cyhoedd y gallai’r Ymddiriedolaeth ei chyhoeddi o bryd i’w gilydd.
- (b) monitro nifer a chanlyniad y cwynion sy’n ymwneud â glanhau, hylendid a rheoli heintiau a roddwyd i’r Ymddiriedolaeth o dan eu gweithdrefn gwynion.
- (c) adrodd, yn chwarterol o leiaf, wrth ran gyhoeddus cyfarfodydd llawn bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y materion a gyflwynwyd iddo ef/hi o dan baragraff (a) uchod ynghyd ag unrhyw faterion sy’n codi o safbwynt y materion hyn.

(b) O.S. 2003/149 (CY.19), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2004/1016 (CY.113), O.S. 2004/1771 ac O.S. 2005/3302 (CY.256).

- (d) sicrhau bod yr adroddiadau o dan baragraff 2(c) ar gael i'r Cyngor Iechyd Cymuned neu'r Cyngorau Iechyd Cymuned ar gyfer yr ardal y mae'r Ymddiriedolaeth berthnasol yn ei gwasanaethu.
- (e) sicrhau bod yr adroddiadau o dan baragraff 2(c) ar gael i'r cyhoedd.

Bwrdd Iechyd Lleol Powys

3. Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol Powys enwebu a chyhoeddi'r enwebiad ac enw un o'i aelodau nad yw'n swyddog i gael ymgymryd â'r canlynol:

- (a) gweithredu fel 'hyrwyddwr y cleifion' ar faterion sy'n ymwneud â glanhau, hylendid a rheoli heintiau, ac yn fwy penodol:-
 - (i) cyfleu i bersonél priodol y Bwrdd Iechyd Lleol y materion perthnasol, gan gynnwys y rheiny sy'n hyrwyddo gwelliant, sy'n gysylltiedig â glanhau, hylendid a rheoli heintiau hyd y bo'r rhain yn berthnasol o safbwynt darparu gwasanaethau gan neu ar ran y Bwrdd Iechyd Lleol yn adeiladau'r Bwrdd Iechyd Lleol a gyflwynir iddo ef/hi gan aelodau o'r cyhoedd, cleifion y Bwrdd Iechyd Lleol a Chynghorau Iechyd Cymuned; a
 - (ii) chynghori aelodau o'r cyhoedd, cleifion y Bwrdd Iechyd Lleol a Chynghorau Iechyd Cymuned yn ôl y digwydd ynghylch ymateb y Bwrdd Iechyd Lleol i un o'r materion hyn a godir o dan baragraff 3(a)(i) uchod; a
 - (iii) sicrhau y darperir y wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth, parthed glanhau, hylendid a rheoli heintiau i gleifion y Bwrdd Iechyd Lleol ac aelodau o'r cyhoedd y gallai'r Bwrdd Iechyd Lleol ei chyhoeddi o bryd i'w gilydd.
- (b) monitro nifer a chanlyniad y cwynion sy'n ymwneud â glanhau, hylendid a rheoli heintiau a roddwyd i'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan eu gweithdrefn gwynion.
- (c) adrodd, yn chwarterol o leiaf, wrth ran gyhoeddus cyfarfodydd llawn y Bwrdd Iechyd Lleol, y materion a gyflwynwyd iddo ef/hi o dan baragraff (a) uchod ynghyd ag unrhyw faterion sy'n codi o safbwynt y materion hyn.
- (d) sicrhau bod yr adroddiadau o dan baragraff 3(c) ar gael i'r Cyngor Iechyd Cymuned neu'r Cyngorau Iechyd Cymuned ar gyfer yr ardal

y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn ei gwasanaethu.

- (e) sicrhau bod yr adroddiadau o dan baragraff 3(c) ar gael i'r cyhoedd.

Arwyddwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dyddiad

LORD DAFYDD ELIS THOMAS
Y Llywydd